**Rhif: 3**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C16/1450/03/HT** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **11/11/2016** |
| **Math y Cais:** | **Hysbysiad Telathrebu** |
| **Cymuned:** | **Ffestiniog** |
| **Ward:** | **Bowydd a Rhiw** |
| **Bwriad:** | **Gosod polyn gyda 3 antenna i gyfanswm uchder o 20m, gosod un lloeren cyfathrebu ynghyd a gosod 3 cabinet offer, 1 cabinet yn cynnwys mesurydd gyda ffens 2m uchder yn amgylchynu** |
| **Lleoliad:** | **Tir ger Y Ddol, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL413SL** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | CANIATAU GYDAG AMODAU |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais i osod polyn mast solet gyda 3 antenna i gyfanswm uchder o 20m, gosod un lloeren cyfathrebu ynghyd a gosod 3 cabinet offer, 1 cabinet yn cynnwys mesurydd gyda ffens 2m o uchder yn ei amgylchynu.

1.2 Mae’r safle wedi ei leoli ar gyrion pentref Tanygrisiau, oddi mewn i safle sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer parcio/ biniau ail-gychu. Mae mynediad gerbydol i mewn i’r safle oddi ar y brifford gyfagos ac mae llystyfiant eithaf sylweddol yn amgylchynu’r safle. Mai tai amrywiol wedi eu gwasgaru o gwmpas, ac mae cae chwarae union gerllaw. Mae caniatâd cynllunio wedi ei roi’n ddiweddar ar gyfer codi adeilad ar gyfer gwasanaethau Achub Mynydd gerllaw.

1.3 Mae’r bwriad yn cyflawni amcan y Llywodraeth i ddarparu cyflenwad signal 4G ble nad yw’n bodoli mewn ardaloedd gwledig. Mae bwriad lliwio’r mast yn liw brown olewydden, a’r cabinet yn wyrdd.

1.4 Mae’r dogfennau isod wedi eu cyflwyno fel rhan o’r cais:

- Declaration of Conformity with the International Commision on Non-Ionizing Radiation Protection (ICNIRP) Public Exposure Guidelines
- Radio Planning an Propagation
- Llythyr Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- General Background Information for Telecommunications Development
- Copy of Pre Application Consultation Letters
- Notice Served on Landowner/Tenant
- Landscape and Visual Impact Assessment

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni’r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI B12 - GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL
Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a fyddai’n achosi niwed arwyddocaol i’w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

POLISI B23 – MWYNDERAU - Diogelu mwynderau’r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau’r ardal leol.

POLISI B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy’n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI B29 - DATBLYGIADAU AR DIROEDD DAN FYGYTHIAD LLIFOGYDD
Rheoli datblygiad penodol ym mharth llifogydd C1 a C2 a’u cyfeirio tuag at dir addas ym mharth Ac oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n berthnasol i nodweddion y safle a phwrpas y datblygiad.

POLISI C1 - LLEOLI DATBLYGIAD NEWYDD
Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy’n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun.

POLISI CH20 - OFFER TELATHREBU - Caniateir cynigion am offer telathrebu fydd angen caniatâd cynllunio os gellir cydymffurfio a chyfres o feini prawf penodol sydd yn ymwneud a materion gweledol, amgylcheddol ac iechyd. Dylid ceisio defnyddio strwythurau neu adeiladau presennol addas a dylid symud yr offer telathrebu o’r safle os na fydd ei angen mwyach.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a’r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

2.4 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. (Fersiwn Cyfansawdd yn cynnwys Newidiadau Materion sy’n Codi, Ionawr 2017)**

PS 3: Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

PCYFF 1: Meini prawf datblygu

PCYFF 2: Dylunio a siapio lle

PCYFF 3: Dylunio a thirweddu

AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau , Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig

2.5 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru fersiwn 9 2017

Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd

Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu

Llythyr gan Brif Gynllunydd Llywodraeth Cymru dyddiedig 29.11.16 yn datgan bod Polisi Cynllunio Cymru yn annog awdurdodau cynllunio lleol i ymateb yn gadarnhaol i gynigion telathrebu wrth gymryd i ystyriaeth y cyngor ar ddiogelu ardaloedd trefol a gwledig. Mae ceisiadau o'r fath yn rhan o fframwaith y Llywodraeth ar gyfer gwneud y wlad yn genedl ddigidol.

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C09M/0047/03/R3 - CANOLFAN AILGYLCHU ARFAETHEDIG, CYFLEUSTER TROSGLWYDDO DEUNYDDIAU, DÔM HALEN A DEPO GWASANAETHAU'R CYNGOR - TYNNU'N ÔL - 28-Jul-2010

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref: Dim gwrthwynebiad

Uned Drafnidiaeth: Tybir na fuasai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar unrhyw ffordd , neu ffordd arfaethedig.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Sylwadau cyffredinol a dim gwrthwynebiad

Dŵr Cymru: Sylwadau cyffredinol

Uned Gwarchod y Cyhoedd: Heb eu derbyn

Y Weinyddiaeth Amddiffyn: Dim gwrthwynebiad

Uned Bioamrywiaeth/Coed: Mae'r ddwy goeden Onnen mewn cyflwr derbyniol. Mae'r un orllewinol o'r par wedi bod yn destun "trauma" yn y blynyddoedd diwethaf ac mae hoel creithiau a changhennau wedi marw arni. Serch hyn mae "reaction wood" yn tyfu yn ôl dros y creithiau ac mae cnwd o frigau newydd arni sydd yn dangos ei bod yn goroesi beth bynnag ddigwyddodd - creu'r maes parcio o bosib? Mi ddylai bod hir oes i'r ddwy goeden.
Mae yna rhododendron ar y safle ac wedi eu hynysu o unrhyw glystyrau eraill. Mi fyddai yn wych petai posib cael y datblygwr i gael gwared â'r rhain ac ail blannu coed cynhenid fel rhan o'r datblygiad

Parc Cenedlaethol Eryri: Dim sylwadau i'w cynnig

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd nifer o lythyrau gan gynnwys deiseb oedd yn nodi'r isod:

- Effaith pelydrau
- Agosatrwydd at yr Ysgol a thai preswyl
- Dim angen
- Effaith weledol ar yr ardal

## 5. Asesiad o’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae’n ofynnol gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn unol â’r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2001 – 2016) yw’r ‘Cynllun Datblygu’ ar hyn o bryd ac bydd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl ar y Cyd) yn disodli’r CDU fel y ‘cynllun datblygu’ ar ôl iddo gael ei fabwysiadu. Y gobaith yw y bydd y CDLl ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu yn ystod Gorffennaf 2017.

5.2 Wrth ddelio gydag unrhyw gais cynllunio y prawf statudol ddylai fod yr ystyriaeth gyntaf ar bob achlysur, h.y. mae’n ofynnol gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn unol â’r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Mae’r CDLl ar y Cyd yn ystyriaeth cynllunio berthnasol rŵan ar gyfer diben rheoli datblygu - gweler paragraff 3.1.3 Polisi Cynllunio Cymru sy’n datgan:

“Gallai ystyriaethau perthnasol gynnwys yr amgylchiadau presennol, polisïau mewn cynllun datblygu sydd wrthi’n cael ei baratoi a pholisïau cynllunio Llywodraeth Cymru. Dylai pob cais gael ei ystyried mewn perthynas â pholisïau cyfredol...”.

5.3 Er bod nifer o bolisïau wedi cael eu trafod yn fanwl yn ystod Gwrandawiadau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, ni fyddwn yn gwybod gyda sicrwydd beth fydd cynnwys y Cynllun tan fydd yr Arolygydd yn cyflwyno ei adroddiad rhwymol.

5.4 Mae paragraff 2.14.1 Polisi Cynllunio Cymru yn datgan:

“...wrth ystyried faint o bwys i’w osod ar bolisïau penodol mewn CDLl sydd ar y gweill sy’n berthnasol i gynnig neilltuol, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yn ofalus y dystiolaeth waelodol a’r cefndir i’r polisïau. Gall polisi cynllunio cenedlaethol hefyd fod yn ystyriaeth berthnasol yn yr amgylchiadau hyn.”

5.5 Mae gofynion polisi C1 yn cymeradwyo cynigion sy’n rhoi blaenoriaeth i dir neu adeiladau a leolir o fewn ffiniau datblygu. Mae’r safle wedi ei leoli tu mewn i ffin datblygu Blaenau Ffestiniog ac ystyrir bod egwyddor y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol gan ei fod yn gwneud defnydd da o ran o safle sydd wedi ei leoli o fewn ffin ddatblygu.

5.6 Yn yr un modd, mae polisi CH20 yn caniatáu cynigion ar gyfer seilwaith newydd ac offer telathrebu yn ddarostyngedig i ystyriaeth lawn o feini prawf penodol ynghlwm a’r polisi yma, sef:

1. bod y datblygiad yn defnyddio strwythurau (gan gynnwys offer telathrebu eraill) neu adeiladau presennol addas oni bai y gellir profi’n glir na fyddai hynny’n ymarferol a phriodol;
2. na fydd graddfa, lleoliad, dyluniad ac amlygrwydd y datblygiad yn achosi niwed arwyddocaol i’r dirwedd, yr arfordir, bioamrywiaeth, neu ardal/ nodwedd hanesyddol, yn arbennig o fewn neu wrth ymyl adeiladau/ ardaloedd dynodedig;
3. fod y datblygiad wedi ei ardystio i gydymffurfio â chanllawiau ICNIRP;
4. os na fydd angen yr offer telathrebu mwyach, ei fod yn cael ei symud o’r safle a bod gwaith adfer priodol yn cael ei wneud.

5.7 Mae'r ymgeisydd wedi nodi yn eu cais cynllunio'r rhesymau pam fod y lleoliad yma wedi ei ddewis ar gyfer y datblygiad, gan nodi ei fod yn rhan o amcan y Llywodraeth i ledanu signal 4G i lefydd ble nad yw'n bodoli'n barod, ac yn benodol ardaloedd gwledig.

5.8 Mae Asesiad Effaith Weledol ar y Dirwedd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais. Mae'r asesiad yn cydnabod fod y safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol ac yn agos i'r ffin gyda Pharc Cenedlaethol Eryri, ond yn nodi fod effaith weledol y datblygiad yn y tirwedd yn  ganolig i fychan.

5.9 Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol efo pryder ynghylch ac effaith weledol y datblygiad, yn enwedig o gyfeiriad Tanygrisiau; ond o ystyried nad yw Parc Cenedlaethol Eryri yn gwrthwynebu'r bwriad, ac o ystyried cynnwys yr Asesiad Effaith Weledol ar y Dirwedd, ni ystyrir fod yr effaith yn sylweddol yn yr achos yma.

5.10 Mae Declaration of Conformity with the International Commision on Non-Ionizing Radiation Protection (ICNIRP) Public Exposure Guidelines wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais gerbron, sy'n cadarnhau fod y datblygiad wedi ai ardystio i gydymffurfio a chanllawiau ICNIRP.

5.11 Derbyniwyd gwrthwynebiad ar sail effaith y datblygiad ar iechyd, ac yn benodol ar iechyd plant yn yr Ysgol Gynradd gerllaw. Mae maen prawf rhif 3 o'r polisi uchod yn sicrhau y bydd datblygiadau arfaethedig yn bodloni canllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Amddiffyn rhag Ymbelydriad Anïoneiddiol (ICNIRP). Disgwylir i bob gorsaf newydd fodloni canllawiau'r ICNIRP. Derbyniwyd gwybodaeth yn dangos cydymffurfiaeth a'r safonau yma. Er cydnabyddir pryder sydd wedi codi' ni ystyrir fod y bwriad yma yn groes i'r polisïau cenedlaethol na'r Cynllun Unedol ac nid oes angen rhagor o wybodaeth i asesu effaith posib y datblygiad.

5.12 Mae modd amodi fod yr offer yn cael ei symud o'r safle a bod gwaith adfer priodol yn cael ei wneud petai'r angen ar gyfer yr offer yn dod i ben. Ar sail yr uchod ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi CH20.

5.13 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn parth llifogi C2. Er hyn, mae Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd yn nodi fod y math yma o ddatblygiad yn cael ei ddiffinio fel datblygiadau sy'n llai agored i niwed. Ni fydd y datblygiad yn golygu byddai gweithwyr ar y safle yn ddyddiol (nid oes darpariaeth swyddfa ayyb yn rhan o'r cais) ac nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi unrhyw angen am Asesiad Canlyniad Risg.

5.14 Ar sail y math o ddatblygiad a'r lleoliad felly, ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio gydag egwyddorion polisi B29 a Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd. Ystyrir hefyd fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion y polisïau a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol (Fersiwn Cyfansawdd yn cynnwys Newidiadau Materion sy'n Codi, Ionawr 2017).

**Mwynderau gweledol**

5.15 Gyda'r math yma o ddatblygiad, mae'n anorfod y byddai'r strwythur arfaethedig yn rhannol weladwy o fannau cyhoeddus oherwydd yr angen iddo fod mewn lleoliad weddol agored er mwyn sicrhau y byddai'n gweithio i'w gapasiti llawn. Er hynny, ac fel y nodir uchod, mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol bryder ynghylch ac effaith weledol y datblygiad, yn enwedig o gyfeiriad Tanygrisiau ac o nodi cyflwr coed presennol o gwmpas y safle; ond o ystyried nad yw Parc Cenedlaethol Eryri yn

gwrthwynbeu'r bwriad, ac o ystyried cynnwys yr Asesiad Effaith Weledol ar y Dirwedd, ni ystyrir fod yr effaith yn sylweddol yn yr achos yma.

5.16 Mae nifer o strwythurau main ag uchel yn bodoli eisoes yn yr ardal, megis polion trydan a golau stryd, ac mae'r mast bwriedig hefyd yn cefnu ar dirwedd uchel presennol. Mae'r ty preswyl agosaf oddeutu 25m i ffwrdd. Cydnabyddir y bydd y datblygiad yn cael rhywfaint o effaith weledol ar y tai agosaf yma, ond ni ystyrir y byddai'r effaith yn sylweddol yn yr achos yma. Credir felly fod gofynion cyffredinol polisi B23 yn cael eu bodloni.

5.17 Mae gorffeniad y mast mewn brown, sydd yn yr achos yma yn dderbyniol oherwydd natur y tir sydd yn gefndir i'r datblygiad; a chredir y byddai yn ymdoddi yn well gyda'r gorffeniad hwn. Mae'r offer cysylltiol sef y cabinets a'r ffens oddi amgylch, yn ogystal yn dderbyniol oherwydd eu gorffeniad. O ran gorffeniadau felly, credir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt gofynion polisi B25.

5.18 Strwythur main a syml yw hwn yn y bôn, sydd yn annhebygol o gael effaith amlwg hir dymor ar fwynderau gweledol yr ardal leol. Credir fod y bwriad o safbwynt yr elfen yma yn dderbyniol ac felly yn bodloni gofynion yr ail faen prawf o Bolisi CH20 sy'n datgan na ddylai'r datblygiad gael effaith niweidiol sylweddol ar y dirwedd, fel sydd wedi ei nodi uchod.

5.19 Yn yr un modd, ni ystyrir y byddai'r datblygiad yn cael effaith mwy na leol ar y Dirwedd Hanesyddol, ac felly ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi B12 sy'n gwarchod Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol.

**Mwynderau cyffredinol  a phreswyl**

5.20 Mae gwybodaeth wedi ei gyflwyno gyda'r cais sydd yn rhestru safleoedd eraill ger y safle a ystyriwyd cyn penderfynu ar y safle yma. Gwelir fod nifer o'r rhain yn cael eu diystyru oherwydd effaith niweidiol posibl ar fwynderau preswyl a chyffredinol o fewn yr ardaloedd hynny, ac oblygiadau rent ar dir preifat.

5.21 Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol o safbwynt sŵn, ac na fyddai yn amharu ar fwynderau cyffredinol a phreswyl yr ardal gyfagos o safbwynt yr agwedd yma. Fel y sonir uchod, mae gwybodaeth wedi ei dderbyn sy'n cadarnhau fod y datblygiad wedi ai ardystio i gydymffurfio a chanllawiau ICNIRP, er gwaethaf pryder cyhoeddus ynglyn ac effaith ar iechyd. Ni chredir felly fod y bwriad yn annerbyniol o safbwynt trydydd maen prawf polisi CH20.

5.22 Credir fod y safle yma yn addas o ran ei leoliad ac yn dderbyniol o safbwynt ei effaith ar fwynderau cyffredinol a phreswyl yr ardal ac felly yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion polisi B23.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.23 Mae lleoliad y strwythur a'r holl offer cysylltiol ym mhen pellaf llecyn sy'n cael ei ddefnyddio'n achlysurol ar gyfer parcio, ac ni fyddai yn amharu mewn unrhyw ffordd ar symudiadau cerbydau i mewn ac allan o'r safle ei hun. Er y byddai yn rhannol weladwy o ffyrdd cyhoeddus cyfagos, ni wrthwynebir y bwriad gan yr Uned Drafnidiaeth ac felly ni chredir fod unrhyw bryder o safbwynt cydymffurfio gyda gofynion polisi CH33.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.24 Yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus derbyniwyd nifer o lythyrau gan gynnwys deiseb oedd yn nodi'r isod, ac ystyrir fod yr adroddiad uchod yn delio yn llawn gyda'r materion hyn.

- Effaith pelydrau
- Agosatrwydd at yr ysgol a thai preswyl
- Dim angen
- Effaith weledol ar yr ardal

## 6. Casgliadau:

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, ni chredir fod y bwriad i godi mast telathrebu fel y ceir yma yn annerbyniol a'i fod yn cydymffurfio gyda gofynion y polisïau perthnasol fel a nodir uchod.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatau – amodau

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda'r cynlluniau
3. Tynnu'r mast a'r offer cysylltiol ac adfer y tir os yw'r defnydd yn dod i ben.
4. Amod lliw'r mast a'r antena/lloeren
5. Amod lliw y cabinet a'r ffens
6. Cytuno cynllun tirlunio a gwaredu rhododendron